



# The Planning Inspectorate Yr Arolygiaeth Gynllunio

3/18 Eagle Wing  
Temple Quay House  
2 The Square  
Bristol, BS1 6PN

Gwasanaeth 0303 444 5000  
Cwsmeriaid: [brechfaconnection@pins.gsi.gov.uk](mailto:brechfaconnection@pins.gsi.gov.uk)  
e-bost:

---

At bartïon â buddiant, personau yr  
effeithir arnynt a phersonau eraill

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN020016

Dyddiad: 30 Mawrth 2016

---

Annwyl Syr/Madam,

## Rheolau Cynllunio Seilwaith (Gweithdrefn Archwilio) 2010 (fel y'u diwygiwyd) – Rheol 8(3) a Rheol 17

### Cais gan Western Power Distribution (South Wales) plc am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Cyswllt Coedwig Brechfa

#### Penderfyniad Gweithdrefnol

Ar ôl adolygu dogfennau a gyflwynwyd erbyn Dyddiad Cau 6, sef 17 Mawrth 2016, rwyf wedi penderfynu bod rhai materion sy'n weddill lle mae angen rhagor o wybodaeth. Cyfeirir ceisiadau am wybodaeth bellach at bartïon penodol, fodd bynnag, mae croeso i bob parti ymateb.

Lle mae gwybodaeth wedi'i chyflwyno ar gyfer Dyddiad Cau 7, sef 31 Mawrth 2016, dylid nodi hyn yn hytrach nag ailadrodd yr ateb.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymholiadau hyn yw **hanner dydd ar 5 Ebrill 2016**. Daw'r dyddiad hwn yn Ddyddiad Cau 8 yr amserlen archwilio. Caiff yr ymatebion eu cyhoeddi cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, fodd bynnag, dylid nodi y dylai'r holl sylwadau i'w hystyried fel rhan o'r archwiliad gael eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau hwn.

#### I Mrs Rentmore:

Mae Adran 6.2 Adroddiad JH Hatherall dyddiedig mis Mawrth 2016 [REP6-008] yn datgan:

*'Mae'r asesiad risg yn tybio bod **potensial**<sup>1</sup> yn bodoli ar gyfer cyswllt rhwng y polion a gynigir a'r ffynonellau. Ni ellir gwirio cyswllt o'r fath am y rhesymau a amlinellir*

---

<sup>1</sup> Pwyslais yr Awdurdod Archwilio

*uchod, ond mae natur y model cysyniadol yn golygu bod yn rhaid ystyried hyn fel **posibilrwydd**<sup>2</sup>.*

A ydych chi (neu eich ymgynghorydd hydroddaearegol, Mr Hatherall) yn gallu dangos unrhyw gofnod cyhoeddedig lle dangosir bod polion pren ar gyfer llinellau uwchben y mae dyfnder eu seiliau heb fod yn fwy na 2.7m islaw lefel naturiol y tir (Gofyniad 27 y Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft Fersiwn E [REP5-023]) wedi ymyrryd â'r llwybr sy'n cysylltu unrhyw gyflenwad dŵr a'i ffynhonnell (dŵr wyneb neu ddŵr daear)?

### **I Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Gâr:**

A oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu Gyngor Sir Gâr unrhyw gofnodion o ddigwyddiadau lle dangosir bod polion pren ar gyfer llinellau uwchben y mae dyfnder eu seiliau heb fod yn fwy na 2.7m islaw lefel naturiol y tir (Gofyniad 27 y Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft Fersiwn E [REP5-023]) wedi ymyrryd â'r llwybr sy'n cysylltu unrhyw gyflenwad dŵr a'i ffynhonnell (dŵr wyneb neu ddŵr daear)?

### **I'r Ymgeisydd:**

Gofynnir i'r Ymgeisydd ymateb yn fanwl i gynnwys a chasgliadau Adroddiad JH Hatherall dyddiedig mis Mawrth 2016 [REP6-008]. Dylai'r Ymgeisydd nodi'n glir manylion eu holl gynigion lliniaru a gynigir ar gyfer diogelu ffynonellau dŵr.

### **TIR Y GORON**

### **I'r Ymgeisydd:**

Beth yw statws presennol cynnydd yr Ymgeisydd o ran cael caniatâd o dan adran 135(1) [ac adran 135(2)] Deddf Cynllunio 2008 gan awdurdod (neu awdurdodau) priodol y Goron ar gyfer y lleiniau canlynol sydd â buddiant y Goron: B6, C216, C218, C219, C220, C221, C222, C223, C224, C225, C226 ac C227?

Mae'r canlynol yn ddetholiad o 'Sylwadau Ysgrifenedig yr Ymgeisydd yn dilyn Gwrandawriad Caffael Gorfodol a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 10 Chwefror 2016' [REP5-033]:

*"Mae ateb yr Ymgeisydd i CA2-09 wedi'i osod allan yn REP4-027.*

*Ystad y Goron (Croesfan Afon Tywi):*

*Paratowyd Penawdau'r Telerau drafft gan Cooke and Arkwright yn gweithredu ar ran Ystad y Goron. Mae'r rhain wedi'u hadolygu gan dîm prosiect Western Power Distribution a'u dychwelyd gyda diwygiadau ar gyfer ystyriaeth y Goron. Fodd bynnag, oherwydd nad yw Ystad y Goron yn dal y tir ar ran y Goron, ond yn hytrach fel y Goron, nid ydynt wedi'u cynnwys yn narpariaethau a.135(1)."*

A wnewch chi esbonio sut mae'r Ymgeisydd yn dod i'r casgliad nad yw adran 135(1) yn berthnasol mewn amgylchiadau o'r fath, gan gofio bod adran 135(1) Deddf Cynllunio 2008 yn cynnwys y geiriau canlynol (ychwanegwyd pwyslais):

"...wedi'i ddal ac eithrio **gan** neu ar ran y Goron...".

---

<sup>2</sup> ibid

## **DARPARIAETHAU AMDDIFFYNNOL**

### **I'r Ymgeisydd:**

Rhoddwyd manylion cynnydd presennol trafodaethau ar Ddarpariaethau Amddiffynnol yn [REP4-043]. Gofynnir i'r ymgeisydd ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynnydd ers Dyddiad Cau 4:

Atgoffir yr Ymgeisydd, er mwyn i adran 127 Deddf Cynllunio 2008 beidio â bod yn berthnasol, byddai angen tynnu'n ôl sylwadau sy'n berthnasol i adran 127(1) yn ffurfiol o'r archwiliad yn ysgrifenedig. Mae cytundebau Darpariaeth Amddiffynnol yn parhau heb eu penderfynu gyda:

- Dŵr Cymru;
- BT/Openreach<sup>3</sup>;
- Mainline Pipelines a
- Wales & West Utilities.

## **Y GORCHMYNION CANIATÂD DATBLYGU DRAFFT**

### **I'r Ymgeisydd:**

A yw'r Ymgeisydd yn gallu darparu copi sy'n olrhain newidiadau, yn dangos y newidiadau ers y cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu drafft [APP-039] a gyflwynwyd ym mis Mai 2015 a'r fersiynau terfynol o Orchymyn Caniatâd Datblygu drafft yr Ymgeisydd ar gyfer Opsiwn A, sef [REP5-023] ar hyn o bryd, ac Opsiwn B, sef [CR-011] ar hyn o bryd?

Hefyd gofynnir i'r Ymgeisydd ddarparu fersiynau Word o'r Gorchymynion Caniatâd Datblygu drafft ar gyfer Opsiwn A ac Opsiwn B a chadarnhad bod y rhain yn y templed Offeryn Statudol.

Gofynnir i'r Ymgeisydd sicrhau bod yr holl iaith a ddefnyddir o fewn y Gorchymynion Caniatâd Datblygu drafft yn unol â Nodyn Cyngor 15 yr Arolygiaeth Gynllunio: Drafftio Gorchymynion Caniatâd Datblygu. Dylid rhoi sylw penodol i'r confensiynau drafftio.

### **I'r Ymgeisydd:**

Erthygl 34: Ardystio Cynlluniau.

Gofynnir i'r Ymgeisydd ystyried a oes angen i'r Gorchymynion Caniatâd Datblygu drafft egluro y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ardystio'r Cynlluniau Amlinellol a bod yn rhaid i'r Cynlluniau Terfynol a ddisgrifir yng Ngofynion 15, 18, 21 a 24 gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru lle bo angen.

### **I'r Ymgeisydd a Chyngor Sir Gâr:**

---

<sup>3</sup> Nid yw'r e-bost dyddiedig 27 Hydref 2015 yn gytundeb llofnodedig

Gofynnir i'r Ymgeisydd a Chyngor Sir Gâr roi'r newyddion diweddaraf i'r Awdurdod Archwilio ynghylch statws presennol:

- Y cytundeb Adran 106; a
- Datganiad o Dir Cyffredin ar y Gorchmynion Caniatâd Datblygu drafft ar gyfer Opsiwn A a B.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau pellach, mae pob croeso i chi gysylltu â'r tîm achos.

Yr eiddoch yn gywir

*Martin Broderick*

**Martin Broderick**  
**Awdurdod Archwilio**

Atodiad A: Amserlen Ddiwygiedig yr Archwiliad

Mae'n bosibl y rhoddir cyngor ar ymgeisio am orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu neu wneud sylwadau ar gais (neu gais arfaethedig). Fodd bynnag, nid yw'r cyfathrebu hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallwch ddibynnu arno a dylech geisio eich cyngor cyfreithiol a chyngor proffesiynol eich hun, yn ôl y gofyn.

Caiff cofnod o'r cyngor a ddarperir ei roi ar wefan Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol ynghyd ag enw'r unigolyn neu sefydliad a ofynnodd am y cyngor. Diogelir preifatrwydd unrhyw wybodaeth bersonol yn unol â'n Siarter Gwybodaeth y dylech ei darllen cyn anfon gwybodaeth i'r Arolygiaeth Gynllunio.

Atodiad A: Amserlen Ddiwygiedig yr Archwiliad

Eitem	Materion	Dyddiadau Dyledus
22	<p><b>Dyddiad Cau 7</b></p> <p>Dyddiad cau ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymatebion i sylwadau ar Orchymyn Caniatâd Datblygu ymgynghorol drafft yr Awdurdod Archwilio</li> <li>• Sylwadau ar unrhyw wybodaeth bellach a geisir gan yr Awdurdod Archwilio</li> </ul>	<p><b>Dydd Iau 31 Mawrth 2016 am hanner dydd</b></p>
23	<p><b>Dyddiad Cau 8</b></p> <p>Dyddiad cau ar gyfer derbyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymatebion i Reol 17 a gyhoeddwyd ar 30 Mawrth 2016</li> <li>• Sylwadau ar unrhyw wybodaeth a dderbyniwyd erbyn Dyddiad Cau 7</li> </ul>	<p><b>Dydd Mawrth 5 Ebrill 2016 am hanner dydd</b></p>
24	<p>Mae gan yr Awdurdod Archwilio ddyletswydd i gwblhau'r archwiliad o'r cais erbyn diwedd y cyfnod o 6 mis sy'n cychwyn ar y diwrnod ar ôl cau'r Cyfarfod Rhagarweiniol.</p>	<p><b>Dydd Mercher 6 Ebrill 2016</b></p>